

Rhif: WG41055



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu)  
2020 drafft

28 Medi 2020

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad a geisiodd farn ar y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 drafft (y Gorchymyn drafft) y bwriedir iddo gael ei ddeddfu cyn etholiadau'r Senedd yn 2021.

Mae'r Gorchymyn drafft yn rhestru swyddi, os ydynt yn cael eu dal gan berson, sy'n ei anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd).

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi'r swyddi y cynigir eu cynnwys yn y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 drafft. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r anghymwysiaid a nodir yn adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1A iddi, ac unrhyw anghymwysiaid penodol eraill y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth arall.

Diben yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar gynnwys y Gorchymyn drafft (a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori) cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru, ac anfonwyd doler i'r ymgynghoriad i bob swydd y cynigir ei chynnwys yn y Gorchymyn nesaf, gan wahodd sylwadau.

Er mwyn bod yn dryloyw, mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r meini prawf a'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfynu pa swyddi y dylid eu cynnwys fel swyddi sy'n anghymhwysu yn y Gorchymyn drafft. Mae'r meini prawf hyn yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn 2014 yn dilyn ei ymchwiliad i'r rheolau sy'n ymwneud ag anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd, ynghyd â rhai ystyriaethau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru:

### **Meini prawf ar gyfer pennu pa swyddi ac aelodaeth o gyrff y dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 drafft**

Egwyddorion cyffredinol a nodwyd yn argymhelliad 1 o adroddiad y Pwyllgor:

- Egwyddor 1: Mae hyrwyddo cyfranogiad democrataidd a'r hawl i sefyll fel Aelod o'r Senedd yn hollbwysig.

Egwyddor 2: Dylai anghymhwysu person rhag bod yn aelod o Senedd Cymru gael ei gyfyngu i gyn lleied o ddinasyddion â phosibl.

Egwyddor 3: Mae gweithgarwch gwleidyddol yn amhriodol yng nghyswllt rhai dinasyddion er mwyn:

- i. amddiffyn annibyniaeth y broses etholiadol;
- ii. atal gwrthdaro rhag codi rhwng buddiannau pan gaiff unigolyn ei ethol; a
- iii. amddiffyn rhai swyddi cyhoeddus rhag rhagfarn wleidyddol.

Egwyddor 4: Dylai gorchymyn anghymhwysu fod yn berthnasol i'r dinasyddion canlynol:

- i. y rheini y mae eu rôl yn gofyn iddynt fod yn gwbl ddiuedd, gan gynnwys y rheini y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys y broses etholiadol ei hun;
- ii. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus lle derbynnir budd ariannol sylweddol oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- iii. y rheini sydd mewn swydd gyhoeddus ac yn darparu cyngor ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn y rôl honno;
- iv. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus y mae'r Senedd yn craffu arni.

Egwyddor 5: Os oes rhaid anghymhwysu, rhaid iddynt fod:

- i. yn gyson â'r egwyddorion hyn;
- ii. yn glir ac yn ddiamwys;
- iii. yn gymesur.

- Dylai'r swyddi a ddisgrifir yn argymhelliad 12 o Adroddiad y Pwyllgor fod yn swyddi anghymhwysu a dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwysu, oni bai eu bod eisoes yn swyddi anghymhwysu ac wedi'u cynnwys o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- Dylai aelodau tribiwnlysoedd barnwrol gael eu hanghymhwysu.
- Fel rheol, dylai unigolion a benodir gan Weinidogion Cymru gael eu hanghymhwysu, ond gall fod achosion lle na ddylid gwneud hynny (yn yr achosion hynny, bydd yn bwysig ystyried y pum egwyddor y cyfeiriwyd atynt uchod).
- Ni ddylai staff cyrff cyhoeddus fel y'u disgrifir yn argymhelliad 13 o Adroddiad y Pwyllgor (ee staff Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau'r Heddlu, Tân ac Achub, staff Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru) gael eu hanghymhwysu. Cred Llywodraeth Cymru y gellir tybio'n ddiogel y byddai staff o'r fath yn rhoi'r gorau i'w swyddi petaent yn cael eu hethol, oherwydd byddai parhau mewn swydd o'r fath, wrth gyflawni cyfrifoldebau fel Aelod o'r Senedd, yn rhoi baich amhosibl ar yr unigolyn.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 22 Mehefin 2020 a daeth i ben ar 1 Medi 2020.

## Ymatebion

Rhestrir yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.

Gofynnodd yr ymgynghoriad y chwe cwestiwn canlynol. Ceir crynodeb o'r ymatebion a gafwyd o dan bob cwestiwn:

### **Cwestiwn 1**

**A ydych yn cytuno y dylai'r swyddi a nodir yn y Gorchymyn Anghymhwysu drafft gael eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwysu nesaf?**

Cafwyd cyfanswm o 11 o ymatebion o sylwedd. Dywedodd sawl ymatebydd yn benodol eu bod yn cytuno â'r swyddi sydd wedi'u rhestru, neu eu bod yn cytuno â chynnwys swyddi penodol a oedd yn berthnasol i'w sefydliadau.

Ymatebodd Dinas a Sir Abertawe drwy ddweud ei fod yn deall nad mater i'r ymgynghoriad hwn yw diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sydd eisoes mewn grym, ond cwestiynodd a yw'n briodol cynnwys yr Ombwdsmon Pensiynau yn y Gorchymyn drafft, yn hytrach nag yn Atodlen 1A i Ddeddf 2006, gan y byddai nawr yn gallu sefyll mewn etholiad ar gyfer y Senedd. Cwestiynodd a fyddai'n ymddangos bod yr angen am ddiueddrwydd cyhoeddus yn y swydd hon yr un mor berthnasol i'r Comisiynwyr amrywiol yng Nghymru, nad ydynt yn gallu sefyll mewn etholiad.

Dywedodd un ymateb fod y Gorchymyn drafft, mewn rhai manau, yn sôn am "bob aelod" ond mewn manau eraill yn cyfeirio at gadeirydd ac aelodau. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn ddrislyd a gofynnwyd, os yw "Pob aelod" yn cynnwys cadeirydd, i hynny gael ei nodi yn y Gorchymyn drafft.

## **Cwestiwn 2**

**A oes unrhyw swyddi eraill, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwysu drafft (ac nad ydynt wedi'u hanghymhwysu fel arall o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu ddeddfwriaeth arall) a ddylai gael eu hanghymhwysu rhag bod yn aelod o'r Senedd yn eich barn chi? Os felly, beth y dylid ei gynnwys a pham?**

Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ac Ian Westley, Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau Sir Benfro y dylid ystyried cynnwys Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn awdurdodau lleol Cymru gan fod ganddynt ran hanfodol ac annibynnol i'w chwarae yn y broses ddemocrataidd.

Gofynnodd un ymateb pam nad yw aelodau gweithredol Awdurdod Cyllid Cymru wedi'u hanghymhwysu, ac a yw aelodau bwrdd Llywodraeth Cymru wedi'u hanghymhwysu. Awgrymwyd y dylent hwythau gael eu hanghymhwysu, oni bai eu bod yn perthyn i'r diffiniad o was sifil.

Ymatebodd Shereen Williams MBE OStJ, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, drwy gynnig, ar gyfer Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, y dylai staff yr ystyrir eu bod mewn rolau 'sensitif' gael eu hanghymhwysu hefyd, yn ogystal â'r Aelodau a'r Prif Weithredwr. Y rheswm am hyn yw natur gwaith y Comisiwn gan ei fod yn gyfrifol am drefniadau etholiadol ac mae'n ofynnol iddo fod yn wleidyddol annibynnol.

Awgrymwyd hefyd, ar gyfer y Comisiwn Ffiniau i Gymru, y dylai'r Ysgrifennydd a staff mewn rolau 'sensitif' o fewn yr Ysgrifenyddiaeth gael eu hanghymhwysu hefyd, yn ogystal â Chomisiynwyr. Y rheswm am hyn yw mai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru sy'n gyfrifol am y trefniadau sy'n ymwneud ag etholaethau seneddol yng Nghymru.

Dywedodd Dinas a Sir Abertawe y dylid ystyried cynnwys y Comisiynydd Gwybodaeth, er cysondeb, o ystyried bod pob Comisiynydd yng Nghymru wedi'i anghymhwysu.

## **Cwestiwn 3**

**Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol yn y cwestiynau uchod, defnyddiwch y blwch hwn i roi gwybod inni.**

Ymatebodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ac Ian Westley, Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau Sir Benfro drwy argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau, unwaith y bydd y Gorchymyn Anghymhwysu wedi'i gyhoeddi, ei fod yn cael ei gyfleu'n eang i randdeiliaid allweddol.

Dywedodd un ymateb y dylai prif breswylfa Aelodau o'r Senedd fod yng Nghymru a hefyd, os cânt eu hethol i'r Senedd, y dylai'r Aelod roi'r gorau i bob rôl arall sy'n cynrychioli'r llywodraeth, megis Aelod o Senedd y DU neu gynghorydd llywodraeth leol.

## **Cwestiwn 4**

**Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Gorchymyn Anghymhwysu drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?**

Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w gwneud mewn ymateb i'r cwestiwn hwn neu dywedasant na fyddai'r Gorchymyn Anghymhwysu drafft yn cael unrhyw

effaith ar y Gymraeg. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebydd ei bod yn beth cadarnhaol bod Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 yn cael ei wneud yn ddwyieithog.

### **Cwestiwn 5**

**Eglurwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y Gorchymyn Anghymhwysu drafft fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Ni chafwyd unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

### **Cwestiwn 6**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y blwch hwn i roi gwybod inni.**

Ymatebodd Ian Westley, Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau Sir Benfro ei bod yn ddryslyd i'r rhai sy'n ystyried sefyll mewn etholiad fod rhaid iddynt wirio Rhan 2 o Atodlen 1A (a fewnosodwyd gan adran 29(7)) i Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn ogystal â Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020. Dywedodd fod angen i'r canllawiau fod yn glir iawn, yn y ddwy iaith, i'r rhai sy'n dymuno sefyll mewn etholiad.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd ac mae wedi ystyried yn ofalus yr holl ymatebion a gafwyd.

Ym marn Llywodraeth Cymru, cyfrifoldeb Comisiynwyr a Phrif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yw sicrhau bod trefniadau ar waith i ddiogelu rhag dylanwad neu duedd ormodol mewn perthynas â'i staff. Felly, nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig cynnwys staff yr ystyrir eu bod mewn rolau 'sensitif' yn y Gorchymyn drafft. Mae hyn yn cyd-fynd â'r egwyddorion a'r meini prawf a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfynu pa swyddi y dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwysu, sef na ddylid anghymhwysu staff Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn credu mai cyfrifoldeb y Comisiwn Ffiniau i Gymru yw sicrhau bod trefniadau ar waith i ddiogelu rhag dylanwad neu duedd ormodol mewn perthynas â'i staff. Felly, ni fydd staff mewn rolau 'sensitif' o fewn yr Ysgrifenyddiaeth yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn drafft. Mae hyn yn cyd-fynd ag Egwyddor 2 y meini prawf, sef y dylai anghymhwysu person rhag bod yn aelod o Senedd Cymru gael ei gyfyngu i gyn lleied o ddinasyddion â phosibl.

Er bod y Prif Weithredwr ar hyn o bryd yn swydd ar y cyd â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, efallai na fydd y trefniant hwn ar waith bob amser. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn y Gorchymyn drafft gan mai'r Ysgrifennydd fyddai pennaeth y Comisiwn pe bai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn dod yn sefydliad annibynnol gyda'i Ysgrifenyddiaeth ei hun.

Ar ôl ystyried ymateb Dinas a Sir Abertawe a ofynnodd inni ystyried cynnwys y Comisiynydd Gwybodaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ychwanegu'r Comisiynydd

Gwybodaeth at y Gorchymyn drafft, gan fod angen i'r Comisiynydd Gwybodaeth allu llunio barn wrthrychol a diduedd am ymddygiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â data a gwybodaeth.

Tynnwyd ein sylw at y ffaith y dylai Comisiynwyr ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Comisiwn y Gyfraith gael eu cynnwys yn y Gorchymyn drafft. Mae Deddf Cymru 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfeirio prosiectau at Gomisiwn y Gyfraith. Mae'r un Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar gynigion Comisiwn y Gyfraith mewn meysydd datganoledig yng Nghymru, ac fe'i gwnaed yn ofynnol sefydlu Protocol rhwng Comisiwn y Gyfraith a Gweinidogion Cymru.

Bydd Comisiynwyr y Comisiwn Penodiadau Barnwrol hefyd yn cael eu hychwanegu at y Gorchymyn drafft gan fod y Comisiwn hwn yn cyflawni penodiadau i driwlynlysoedd datganoledig ar ran Gweinidogion Cymru drwy gytundeb o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol hefyd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn drafft gan y gall yr Ombwdsmon fod yn rhan o achosion disgyblu ar gyfer barnwyr ac aelodau Tribiwnlysoedd Cymru.

Mae'r ychwanegiadau hyn yn gyson ag Egwyddor 4 y meini prawf a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfynu pa swyddi y dylid eu cynnwys.

Tynnwyd ein sylw hefyd at y ffaith bod Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau wedi cau ym mis Mawrth 2017 ac felly mae wedi'i ddileu o'r Gorchymyn drafft.

Ar y sail hon, bwriadwn osod gerbron y Senedd Orchymyn drafft sy'n rhestru'r swyddi sydd wedi'u cynnwys yn nrafft yr ymgynghoriad, ynghyd â'r Comisiynydd Gwybodaeth, Comisiynwyr ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Comisiwn y Gyfraith, Comisiynwyr y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol ac Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Hefyd, bydd y cofnod yn y Gorchymyn drafft ar gyfer Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau yn cael ei ddileu.

Mae'r holl sefydliadau a amlinellir uchod wedi cael e-bost uniongyrchol i'w hysbysu bod y swyddi sy'n berthnasol i'w sefydliad wedi cael eu hystyried a'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft.

Nid ydym wedi cynnwys yn y Gorchymyn y swyddi canlynol a awgrymwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad:

Swyddi sydd eisoes wedi'u hanghymhwyso gan Atodlen 1A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

- Swyddogion Cofrestru Etholiadol
- Aelodau gweithredol Awdurdod Cyllid Cymru (am eu bod yn weision sifil)
- Aelodau gweithredol Bwrdd Llywodraeth Cymru (am eu bod yn weision sifil)

Swyddi sydd eisoes wedi'u hanghymhwyso gan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

- Aelodau o Senedd y DU
- Cynghorwyr lleol

Gan fod gwrthdaro buddiannau wedi'i gynnwys yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Anweithredol i Fwrdd Llywodraeth Cymru, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod angen cynnwys Cyfarwyddwr Anweithredol yn y Gorchymyn drafft.

O ran yr ymateb i'r ymgynghoriad a ddywedodd y gallai cyfeiriadau at "gadeiryddion" ac "aelodau" fod yn ddryslyd, rydym wedi ceisio sicrhau bod pob cofnod yn cael ei restru mor gryno â phosibl. Felly, pan fo modd restru cofnod gan ddefnyddio'r term "pob aelod" yn hytrach na restru Cadeirydd ac aelodau, cymerir yr opsiwn hwnnw. Mae'r dull hwn hefyd yn berthnasol i gofnodion eraill megis Comisiynwyr yn hytrach na Chadeirydd a Chomisiynwyr.

Er mai cyfrifoldeb y Comisiwn Etholiadol yw llunio canllawiau ar gyfer etholiadau, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Etholiadol i sicrhau bod unrhyw ganllawiau sy'n cael eu llunio yn gynhwysfawr ac yn glir. Mae'r Nodyn Esboniadol i'r Gorchymyn drafft hefyd yn ei gwneud yn glir y dylid ei ddarllen ochr yn ochr ag adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 1A iddi.

## **Y Camau Nesaf**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gosod y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 drafft gerbron y Senedd. Mae'r Gorchymyn wedi'i ddiwygio yn dilyn yr ymgynghoriad i ddileu'r cofnod ar gyfer Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau ac i gynnwys y Comisiynydd Gwybodaeth, Comisiynwyr ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Comisiwn y Gyfraith, Comisiynwyr y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol ac Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru, fel yr amlinellir uchod. Rhaid i'r Gorchymyn drafft gael ei gymeradwyo gan y Senedd cyn y gellir ei argymhell i Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor i'w wneud. Rhagwelwn y bydd y broses wedi'i chwblhau erbyn diwedd 2020.

## Atodiad A

### Rhestr o Ymatebwyr

- Mrs C Sharp, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru
- J Robs
- Rhobat Bryn Jones
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Angela Holden, Rheolwr Polisi ar ran Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Rhys George, Cadeirydd cangen y Gymdeithas yng Nghymru – ymateb ar y cyd.
- Shereen Williams MBE OStJ, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru
- Debbie Marles, Swyddog Canlyniadau a Swyddog Cofrestru Etholiadol, Cyngor Bro Morgannwg
- Ian Westley, Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau, Cyngor Sir Penfro
- Dinas a Sir Abertawe

Rydym hefyd wedi cael dau ymateb gan ymatebwyr sydd wedi gofyn i gael aros yn ddiennw.